

Presennol:	Huw Jones John Davies Hugh Hesketh Evans Marian Wyn Jones Siân Lewis Elan Closs Stephens	(Cadeirydd yr Awdurdod) (Prif Aelod Anweithredol yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Rachel Evans Amanda Rees Phil Williams Bethan C. Williams	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Dirprwy Gyfarwyddwr Cynnwys a Darlledu) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Gair o groeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Nododd ECS ei diddordeb yn y drafodaeth gyda TAC a BBC Studios yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o Ymddiriedolaeth y BBC. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 401 (08.09.16) a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 401 (a gynhaliwyd ar 08.09.16) a nodwyd y materion canlynol:

Eitem 7.1.1 – nodwyd mai IHJ ac nid GLL oedd wedi cyflwyno'r sylwadau parthed trafod paratoi ar gyfer y prosiect Adleoli gyda staff.

Eitem 8.1.15 – cyfeiriwyd at y geiriad yn ymwneud ag is-deitlau Saesneg, a nodwyd mai cynnal ar yr un lefel yn hytrach na chynyddu'r oriau yw'r bwriad.

[Crynodeb: Cafwyd dau gywiriad pellach i'r geiriad yn y cofnodion oedd yn ymwneud a buddiannau masnachol dau barti.]

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion gan ymgorffori'r newidiadau uchod.

Dyddiadau Cyfarfodydd yr Awdurdod

Yn sgil y lleihad yn nifer Aelodau'r Awdurdod, penderfynwyd y byddai BCW yn ail-gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod ar gyfer 2017 ac i Aelodau nodi os oes unrhyw gyfarfodydd sy'n peri anawsterau iddynt ar hyn o bryd.

3. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a gofynnwyd am ddiweddariad ar y materion canlynol:

3.1 Trafodaethau gyda'r BBC

[Crynodeb: Nodwyd fod trafodaethau'n parhau gyda'r BBC a gobeithir cyflwyno diweddariad i'r Awdurdod erbyn diwedd mis Tachwedd.]

3.2 Adolygiad 2017

Bydd y Cadeirydd ac IHJ yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol DCMS, Karen Bradley AS yn ystod y bythefnos nesaf. Gobeithir y bydd modd cychwyn trafod paratoadau'r adolygiad bryd hynny.

3.3 Datganiad Diben a Phwrpas S4C

Nododd GW fod nifer o gwmnïau wedi derbyn gwybodaeth am y datganiad a'i fod wedi derbyn ymateb cadarnhaol. Esboniodd fod cyfeiriadau mwy blaenllaw at gwmnïau cynhyrchu fel partneriaid, ac at ddefnydd o arian cyhoeddus wedi eu cynnwys yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

Bydd y datganiad yn cael ei gyflwyno i'r staff ar ffurf Co Bach a chyflwyniad mewn cyfarfod staff. Bydd Aelodau'r Awdurdod hefyd yn derbyn copi ar ffurf Co Bach.

3.4 Diwrnod i Ffwrdd fis Rhagfyr

Cafwyd trafodaeth am baratoi ar gyfer Adolygiad 2017, a chyfleodd i'r Awdurdod drafod materion all fod yn berthnasol, gan gynnwys trafod gweledigaeth a strategaeth S4C. Nodwyd y byddai'n fuddiol i gynnal diwrnod i ffwrdd ar gyfer yr Awdurdod.

Penderfynwyd cynnal Diwrnod i Ffwrdd i'r Awdurdod i drafod paratoadau ar gyfer Adolygiad 2017 yn lle cyfarfod busnes Rhagfyr yr Awdurdod.

Penderfynwyd y dylid gwahodd CB a MWJ i fynychu'r Diwrnod i Ffwrdd ac i gyfrannu at y drafodaeth am ddatblygu strategaeth S4C.

3.5 **Canolfan Yr Egin**

Holwyd ynglŷn â'r bwriad i'r Cadeirydd ac IHJ gyfarfod gyda Medwin Hughes i drafod elfennau ariannol cynllun yr Egin, ac esboniwyd fod sgysiau ffôn unigol wedi eu cynnal.

[Crynodeb: Esboniwyd cefndir y galwadau ffôn a chafwyd cadarnhad gan y brifysgol ar un pwynt pwysig a godwyd.]

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 **Aelodaeth yr Awdurdod**

[Crynodeb: Cyfeiriodd y Cadeirydd at dymor dau Aelod, gan nodi fod tymor y naill wedi dod i ben ar 16 Medi a thymor y llall yn dod i ben ar 7 Tachwedd. Roedd wedi bod yn trafod ail-benodiadau gyda'r DCMS ers peth amser, ond bellach mae'r DCMS wedi cysylltu i roi gwybod na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ail-benodi. Fe ymddiheurodd yn daer am y newyddion hyn gan esbonio mai polisi'r Llywodraeth oedd peidio ail-benodi aelodau i gyrff cyhoeddus, ac nad oedd hyn yn adlewyrchu cyfraniad aelodau mewn unrhyw ffordd.

Trafododd yr Aelodau oblygiadau'r penderfyniad.]

Nododd y Cadeirydd y byddai cyfle i ddiolch i CB a MWJ am eu cyfraniadau maes o law a nodwyd fod bwriad i gynnal digwyddiad ym mis Tachwedd er mwyn diolch iddynt a DRh am eu cyfraniadau pwysig i waith S4C.

O ganlyniad i'r lleihad yn nifer yr Aelodau erbyn diwedd y flwyddyn, nodwyd y byddai mwy o faich yn cael ei ysgwyddo gan weddill yr Aelodau. Awgrymwyd y dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r rhaglen waith ac wrth ystyried gofynion cworwm yr Awdurdod.

4.2 **Rheolau Sefydlog**

Penderfynwyd ystyried lleihau Cworwm cyfarfodydd yr Awdurdod o 4 i 3 nes y bydd aelodaeth yr Awdurdod yn ôl i 8 neu 9 Aelod ac i'r Cadeirydd gyflwyno argymhelliad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Tachwedd.

4.3 **Cadeiryddiaeth y Bwrdd Masnachol**

Cymeradwywyd yr argymhelliad gan y Cadeirydd a'r Bwrdd Masnachol i benodi Carol Bell yn Aelod Anweithredol llawn a Chadeirydd y Bwrdd Masnachol am gyfnod i'w benderfynu, ond yn y lle cyntaf nes y bydd aelodau newydd wedi eu penodi i'r Awdurdod ac y bydd yr Awdurdod wedi penodi aelod newydd o'u plith i wasanaethau fel cyfarwyddwr anweithredol ar y Bwrdd Masnachol.

Penderfynwyd y byddai Hugh Hesketh Evans yn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ar weithgareddau'r Bwrdd yn y cyfamser.

Cymeradwyodd yr Awdurdod ymestyn tymor David Sanders yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol ar y Bwrdd Masnachol.

4.4 **Aelodaeth Y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli**

Nodwyd y bydd angen penodi aelod newydd i'r Pwyllgor Craffu ar ddiwedd tymor MWJ.

4.5 **Cadeiryddiaeth Y Pwyllgor Cynnwys**

Cymeradwyodd yr Awdurdod benodiad HJ yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynnwys am gyfnod interim nes bydd aelodau newydd wedi eu penodi i'r Awdurdod pryd y bydd yr Awdurdod yn penodi cadeirydd parhaol i'r Pwyllgor.

4.6 **Lefel grant DCMS ar gyfer 2017/18**

[Crynodeb: Rhoddodd y Cadeirydd diweddariad ar y trafodaethau gyda'r DCMS a thrafodwyd pryderon S4C am y cyhoeddiadau diweddar.]

4.7 **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol**

Roedd y Cadeirydd ac IHJ wedi cyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor, a chafwyd sesiwn gadarnhaol. Cafwyd cwestiynau parthed y berthynas newydd gyda'r BBC, gydag awgrym y gallai S4C bellhau oddi wrth y BBC. Esboniwyd nad dyna oedd y bwriad o gwbl, a bod S4C a'r BBC yn parhau'n awyddus i gydweithio.

Cafwyd cwestiwn hefyd ynglŷn â phrosesau ar gyfer atebolrwydd S4C i'r Cynulliad, megis cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yn unol â threfniadau arfaethedig y BBC o dan y Siartr newydd.

4.8 **Noson Gwylwyr Blaenau Ffestiniog**

Cyfeiriwyd at noson gwylwyr Blaenau Ffestiniog, gan nodi ei fod yn gyfarfod cadarnhaol iawn, gyda chynulleidfa oedd yn awyddus iawn i drafod arlwy S4C.

5. **Cyfarfod blynyddol rhwng Aelodau TAC ac Aelodau'r Awdurdod**

Croesawyd aelodau TAC i'r cyfarfod [ar gyfer yr eitem hon] a rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o faterion sy'n berthnasol i S4C megis y datblygiadau gyda'r BBC a'r DCMS a pharatoadau ar gyfer Adolygiad 2017.

[Crynodeb: Cafwyd cyflwyniad byr gan TAC ar ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd parhad y perthynas adeiladol rhwng TAC ac S4C a phwysleisiwyd pwysigrwydd y cyfle i gyfarfod yn flynyddol. Trafodwyd aelodaeth TAC a'r dulliau o gynyddu'r aelodaeth. Eglurwyd yr awydd i lunio strwythur newydd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd perthnasol. Trafodwyd datblygiad BBC Studios a'r cyfleoedd a'r risgiau i'r aelodaeth.]

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

6.1 **Cytundebau Rhag-archebu**

[Crynodeb: Cyflwynodd IHJ y cynllun Cytundebau Rhag-archebu arfaethedig. Y bwriad yw dechrau trafod gyda'r cwmnïau cynhyrchu wythnos nesaf. Bydd y cytundebau yn rhoi sicrwydd o isafswm incwm i'r cwmnïau ar sail cyfresi penodol. Cafwyd trafodaeth ymhlith yr Aelodau.]

Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn cymryd ystyriaeth o bryderon yr Awdurdod ynglŷn â rhai sgil-ffeithiau posibl y polisi Rhag-archebu wrth fwrw ymlaen â'r trafodaethau perthnasol gyda'r cwmnïau.

6.2 Cytundeb ar gyfer Gwasanaethau Technegol gyda'r BBC – y "TSA"

Bwriedir cyflwyno diweddariad i'r Awdurdod ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Hydref.

[Crynodeb: Rhoddwyd diweddariad ar yr amserlen ar gyfer arwyddo.]

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu cyn cyfarfod Awdurdod Tachwedd er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu'r cytundeb gwasanaethau technegol drafft.

6.3 Cytundeb diwygiedig ar gyfer yr iPlayer

[Crynodeb: Esboniwyd fod swyddogion wedi bod yn trafod datblygiadau arfaethedig gyda thîm yr iPlayer a'r sgil-ffeithiau posibl i S4C gan gynnwys amlygrwydd cynnwys S4C a chostau'r iPlayer i S4C.]

7. Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Roedd "Parch" wedi cydio yn nychymyg y gynulleidfa ac roedd y darllediad o'r gyngerdd "Aberfan: Cantata Memoria" wedi cyflwyno pwnc dirdynnol mewn modd sensitif a pharchus.]

8. Cyflwyno Cofnodion drafft cyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

8.1 Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 28.09.16

Cyflwynodd MWJ adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys. Nododd fod y Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau am berfformiad y ddarpariaeth Newyddion a dadansoddiad o berfformiad y gwasanaeth yn ystod Chwarter 2.

Roedd ystyried yr Adroddiad Dadansoddi ar gyfer Chwarter 2 yn ddatblygiad newydd yn rhaglen waith y Pwyllgor. Esboniwyd mai'r bwriad oedd rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor ystyried perfformiad y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chanolbwyntio ar un genre fesul cyfarfod.

[Crynodeb: Yn ogystal â'r Adroddiad Dadansoddi cafwyd asesiad treiddgar a deallus o berfformiad y ddarpariaeth Newyddion gan LII.]

8.2 Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli a gynhaliwyd ar 03.09.16

Cyflwynodd John Davies diweddariad ar waith y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli a gyfarfu ar 3 Medi.

Nodwyd fod disgwyl i Gyngor Sir Gaerfyrddin gyhoeddi penderfyniad parthed y cais cynllunio yn ystod yr wythnosau nesaf.

Esboniodd JD fod cais grant wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a bod

swyddogion S4C wedi danfon llythyr o gefnogaeth i'r Llywodraeth ar gais y Drindod.

[Crynodeb: Gan gyfeirio at gefndir y cais am grant nodwyd mai mater i'r Brifysgol oedd pa ffynhonnell grant i geisio. Maent yn gobeithio cael gwybodaeth bellach parthed y cais o fewn y bythefnos nesa.

Dywedodd fod y DCMS yn dal i ystyried pwerau benthyc S4C a nodwyd yr angen i sicrhau na fydd unrhyw fenthyciad yn cael eu dehongli fel arian grant ychwanegol. Roedd ymgynghorwyr cynllunio yn parhau i lunio cais ar gyfer ystâd Llanisien.]

Cafwyd trafodaeth am y cynlluniau ar gyfer trafod opsiynau Adleoli gyda staff, gan gynnwys amserlen y broses, y pecynnau a'r cymorth fydd ar gael. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r risg posibl i barhad busnes S4C wrth gollu staff, ac yn awyddus iawn i sicrhau cyfleoedd priodol yn ystod y cyfnod nesaf i graffu'r prosiect a monitro'r risgiau. Esboniwyd y byddai darlun cliriach ar gael erbyn mis Mawrth pan fydd staff perthnasol wedi gorfod rhoi gwybod i S4C beth yw eu penderfyniad o ran Adleoli.

[Crynodeb: Yng nghyd-destun y prosiect Cydleoli, nodwyd fod y cytundeb arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Technegol gyda'r BBC yn allweddol i S4C. Bwriedir cyflwyno drafft o'r cytundeb i'r Awdurdod ym mis Tachwedd.]

Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol am y gofrestr risg, a'r angen i'w diweddarau er mwyn adlewyrchu asesiad y swyddogion o'r prif risgiau strategol a'r hyn sydd angen i'w wneud er mwyn rheoli'r risgiau. Nodwyd fod y Pwyllgor wedi penderfynu y dylid darparu diweddariad o Gofrestr Risg y cynlluniau Adleoli a Chydleoli i'r Aelodau bob chwe wythnos er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro'r risgiau'n rheolaidd.

8.3 **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 05.09.16**

Cyflwynodd HHE adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Medi ac esboniodd mai prif fusnes y cyfarfod oedd trafod penodi Archwilwyr Allanol ar gyfer S4C. Bydd cyfarfod busnes arferol yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd pryd y bydd cyfle i ystyried gwaith ehangach y Pwyllgor, gan gynnwys y Gofrestr Risg Strategol, Diweddariad Effeithlonrwydd yr Awdurdod, Diweddariad ar waith yr Archwilwyr Mewnol a Materion Personél, gan gynnwys ystyried gwaith y Pwyllgor Craffu ar y prosiectau Adleoli a Chydleoli.

[Crynodeb: Daeth y cytundeb archwilio allanol presennol i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015/16 ac felly roedd angen tendro ar gyfer archwilwyr allanol am y cyfnod 2016/17 i 2018/19. Yn dilyn cyfweiliadau penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol i argymhell un o'r cwmnïau i'r Awdurdod fel archwilwyr allanol S4C. Esboniwyd fod Deddf Darlledu 1990 (Atodlen 6, Para 12(2)) yn datgan mai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gymeradwyo penodiad Archwilwyr Allanol ar gyfer S4C ac felly roedd angen cyflwyno argymhelliad yr Awdurdod i'r DCMS er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r penodiad.

Cymeradwyodd yr Awdurdod argymhelliad y Pwyllgor i benodi archwilwyr allanol S4C ac i gyflwyno'r argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ei chymeradwyaeth.]

Materion eraill a drafodwyd

Cafwyd cyfle hefyd i gyfeirio at y materion canlynol ar ddiwedd y cyfarfod.

Adroddiad PWC ar y Broses Gomisiynu

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn disgwyl derbyn yr adroddiad ers peth amser, a gan fod PWC wedi cwblhau'r adroddiad fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor er gwybodaeth am y tro. Bydd cyfle i drafod yr adroddiad mewn manylder yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

Pecynnau Adleoli - cymeradwyo diweddariad

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am y diweddariad i'r Pecynnau ar gyfer staff S4C sy'n penderfynu adleoli i Gaerfyrddin. Cafwyd atebion i nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r pecynnau ac eglurwyd bod cynrychiolwyr BECTU yn fodlon gyda'r pecynnau diwygiedig. Yn dilyn trafodaeth fe benderfynodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r newidiadau i'r Pecynnau Adleoli.

Nododd yr Awdurdod farn y Pwyllgor a'r newidiadau a argymhellwyd.]

8.4 Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 12.09.16

Cyflwynodd HHE adroddiad ar lafar o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 12 Medi.

[Crynodeb: I gychwyn cafwyd cyflwyniad i'r bwrdd gan gynrychiolwyr Sky Media am werthiant hysbysebion S4C ac am sefyllfa'r farchnad ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Yna rhoddwyd cyflwyniad i'r bwrdd gan gynrychiolydd o gwmni Sarasin am fuddsoddiadau S4C. Neilltuwyd gweddill y cyfarfod i dderbyn cyflwyniadau a chynnal trafodaeth fanwl ar ddau o brif brosiectau'r Bwrdd Masnachol ar hyn o bryd.]

9. Adroddiad y Wifren

Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren er gwybodaeth.

10. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y Wifren i'w cyflwyno i sylw'r Awdurdod.

11. Unrhyw Fater Arall

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau, 10 Tachwedd, 2016